# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 16 Mai 2002

**R – yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**Ron Davies (Caerffili);** Pryd y bu'r trafodaethau diwethaf rhwng swyddfa Prif Weinidog Cymru a Heddlu De Cymru ynglyn â'u hymchwiliadau i achos Mike German ac ai ei swyddfa ef neu'r Heddlu a ysgogodd y trafodaethau hynny. (WAQ17813)

**Ron Davies (Caerffili);** Pryd y penderfynodd Llywodraeth Prif Weinidog Cymru i dderbyn egwyddor trefniadau archwilio integredig yng Nghymru a Lloegr ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a phryd y rhoddwyd gwybod i'r Ysgrifennydd Gwladol. (WAQ17868)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr adran Damweiniau ac Achosion Brys newydd arfaethedig yn Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru, Caerfyrddin. (WAQ17759) **R**

**David Davies (Mynwy);** A wnaiff y Gweinidog restru'r cynadleddau a drefnwyd ac a fynychwyd gan ei staff dros y tair blynedd diwethaf. (WAQ17761)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

**David Davies (Mynwy);** A wnaiff y Gweinidog restru'r cynadleddau a drefnwyd ac a fynychwyd gan ei staff dros y tair blynedd diwethaf. (WAQ17764)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Faterion Gwledig

**David Davies (Mynwy);** A wnaiff y Gweinidog restru'r cynadleddau a drefnwyd ac a fynychwyd gan ei staff dros y tair blynedd diwethaf. (WAQ17760)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**David Davies (Mynwy);** A wnaiff y Gweinidog restru'r cynadleddau a drefnwyd ac a fynychwyd gan ei staff dros y tair blynedd diwethaf. (WAQ17762)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff y Gweinidog ganiatáu i Awdurdodau Lleol fenthyg arian er mwyn iddynt allu cadw cartrefi preswyl a gofal yr henoed o dan eu rheolaeth. (WAQ17814)

**Janet Ryder (Gogledd Cymru);** A yw’r arian sy’n cael ei dderbyn gan Awdurdodau Lleol i ariannu prosiectau Cymunedau’n Gyntaf yn cael ei dalu cyn i’r prosiectau gychwyn neu ar ôl hynny. (WAQ17815)

**Janet Ryder (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ystyried ychwanegu’r £18 miliwn nas gwariwyd o arian Cymunedau’n Gyntaf at gyllideb yr ail flwyddyn. (WAQ17861)

**Ron Davies (Caerffili);** Beth oedd y rheswm polisi dros newid ffactor cymharedd Barnett ar gyfer diwydiant a masnach rhwng 1998 a 2000. (WAQ17862)

**Ron Davies (Caerffili);** Beth oedd y canlyniad, o ran arian, yn sgil lleihau ffactor cymharedd Barnett ar gyfer diwydiant a masnach rhwng 1998 a 2000. (WAQ17863)

**Ron Davies (Caerffili);** Beth oedd y rheswm polisi dros newid ffactor cymharedd Barnett ar gyfer amaethyddiaeth ddomestig rhwng 1998 a 2000. (WAQ17864)

**Ron Davies (Caerffili);** Beth oedd y canlyniad, o ran arian, yn sgil lleihau ffactor cymharedd Barnett ar gyfer amaethyddiaeth ddomestig rhwng 1998 a 2000. (WAQ17865)

**Ron Davies (Caerffili);** Beth oedd y rheswm polisi dros newid ffactor cymharedd Barnett ar gyfer y DETR (heb fod a wnelo â llywodraeth leol) rhwng 1998 a 2000. (WAQ17866)

**Ron Davies (Caerffili);** Beth oedd y canlyniad, o ran arian, yn sgil lleihau ffactor cymharedd Barnett ar gyfer y DETR (heb fod a wnelo â llywodraeth leol) rhwng 1998 a 2000. (WAQ17867)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd

**David Davies (Mynwy);** A wnaiff y Gweinidog restru'r cynadleddau a drefnwyd ac a fynychwyd gan ei staff dros y tair blynedd diwethaf. (WAQ17763)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

**David Davies (Mynwy);** A wnaiff y Gweinidog restru'r cynadleddau a drefnwyd ac a fynychwyd gan ei staff dros y tair blynedd diwethaf. (WAQ17765)